OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 260

# Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023

## RHAN 5

### Yr hawl i gael amser i ffwrdd

**Amseru gwyliau blynyddol**

**35.**—(1) Caiff gweithiwr amaethyddol gymryd gwyliau blynyddol y mae ganddo hawl i'w cymryd o dan y Gorchymyn hwn unrhyw bryd o fewn y flwyddyn gwyliau blynyddol yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth ei gyflogwr.

(2) Nid oes gan weithiwr amaethyddol hawl i gario unrhyw hawl gwyliau blynyddol nas cymerwyd ymlaen o'r naill flwyddyn gwyliau i'r flwyddyn gwyliau nesaf heb gymeradwyaeth ei gyflogwr.

(3) Pan fo cyflogwr wedi cytuno y caiff gweithiwr amaethyddol gario unrhyw hawl gwyliau blynyddol nas defnyddiwyd ymlaen, dim ond yn ystod y flwyddyn gwyliau y mae'n cael ei gario ymlaen iddi y caniateir i'r balans gael ei gymryd.

(4) Yn ystod y 6 mis cyntaf mewn unrhyw flwyddyn gwyliau blynyddol caiff cyflogwr ei gwneud yn ofynnol i weithiwr amaethyddol gymryd hyd at 2 wythnos o'i hawl gwyliau blynyddol o dan y Gorchymyn hwn a chaiff gyfarwyddo i'r gweithiwr gymryd un o'r 2 wythnos hynny o wyliau blynyddol ar ddiwrnodau yn yr un wythnos.

(5) Yn ystod yr ail 6 mis mewn unrhyw flwyddyn gwyliau blynyddol, rhaid i gyflogwr ganiatáu i weithiwr amaethyddol gymryd 2 wythnos o hawl gwyliau blynyddol y gweithiwr o dan y Gorchymyn hwn mewn wythnosau olynol.

(6) At ddibenion yr erthygl hon, mae 1 wythnos o wyliau blynyddol gweithiwr amaethyddol yn cyfateb i nifer y diwrnodau a weithiwyd bob wythnos gan y gweithiwr amaethyddol fel y'i pennir yn unol ag erthyglau 32 a 33.